**RHONDDA CYNON TAF**

# PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

## PWYLLGOR CRAFFU - MATERION YR HINSAWDD, GWASANAETHAU RHENG FLAEN A FFYNIANT

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant a gynhaliwyd Dydd Iau, 1 Chwefror 2024 am 5.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd V Dunn | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd R Yeo | Y Cynghorydd P Evans |

### Aelodau Cyfetholedig yn bresennol

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol yn bresennol

Y Cynghorydd A Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden
Y Cynghorydd M Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd E L Dunning | Y Cynghorydd G Holmes |

**41 Croeso**

Croesawodd yr Is-gadeirydd yr Aelodau a'r Swyddogion i'r cyfarfod

**42 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol C. Middle, J. Barton ac E. Dunning.

**43 YMCHWIL A CHRAFFU**

Cyfeiriodd y Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau at y cyfleusterau ymchwil sydd ar gael i Aelodau yn Uned Busnes y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i Aelodau os oes gyda nhw unrhyw ymholiadau penodol, mae modd iddyn nhw e-bostio Craffu@rctcbc.gov.uk.

## 44 DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Yeo y buddiant canlynol mewn perthynas ag eitem 5 ar yr agenda:
"Rydw i'n cael fy nghyflogi gan 'National Grid Energy Distribution' (Western Power Distribution gynt). Rwy'n gweithio i garfan Projects East, sy'n gyfrifol am adeiladu Prosiectau Mawr. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn brosiectau ar raddfa fawr. Felly, dydw i ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â Gwefru Cerbydau Trydan. Rydw i hefyd yn gweithio mewn swydd weinyddol, a dydw i ddim yn gyfrifol am wneud penderfyniadau yn rhan o hynny. Felly, 'Buddiant Personol' yw hwn.

## 45 YMGYNGHORIADAU

Cyfeiriodd y Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau at y dolenni ymgynghori sydd ar gael trwy wefan 'Craffu RhCT'. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn perthynas ag ymgynghoriadau priodol i'w trafod gan y Pwyllgor bob mis a'i diweddaru bob pythefnos.

## 46 'HINSAWDD YSTYRIOL RHCT' – STRATEGAETH MYND I'R AFAEL Â NEWID YN YR HINSAWDD Y CYNGOR 2022-2025

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad ar Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd 2022-2025 y Cyngor. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth drosolwg gan nodi cynnydd y Cyngor o ran cyflawni Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor, 'Hinsawdd Ystyriol RhCT', fel y cytunwyd ym mis Mehefin 2022.

Roedd trafodaeth i ddilyn, a holodd yr Is-gadeirydd sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r sector preifat i leihau'r Ôl Troed Carbon ledled y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gallai hwn o bosibl fod yn ddarn o waith i'r Pwyllgor ymchwilio iddo yn y dyfodol, gan bwysleisio bod yr Uwch Reolwyr yn cytuno, er bod modd i'r Cyngor leihau ei Ôl Troed Carbon, ei bod hi'n bwysig gweithio ar y cyd â'r sector preifat i gyflawni nodau o ran Newid yn yr Hinsawdd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD Aelodau:**

i. Trafod yr wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
ii. Mynegi barn ar unrhyw feysydd posibl i'w trafod ymhellach yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant;
iii. Nodi'r gwaith i'w ddatblygu ac ymgorffori ymateb y Cyngor i'r Newid yn yr Hinsawdd ymhellach ym musnes y Cyngor, a hynny'n rhan o ddatblygiad Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.
iv. Trafod a yw Aelodau'n dymuno craffu'n fanylach ar unrhyw faterion a gynhwysir yn yr adroddiad yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

## 47 SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU TRYDAN AR SAFLEOEDD ASEDAU'R CYNGOR

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Phennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon yr adroddiad i Aelodau a rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â'r cynnydd ym maes gwefru cerbydau trydan yn asedau'r Cyngor, a hynny o ran gweithio tuag at nodau gwefru cerbydau trydan y Cyngor sydd wedi cael eu datgan yn gyhoeddus. Rhoddodd y Cyfarwyddwr gyflwyniad PowerPoint i Aelodau mewn perthynas â mannau gwefru cerbydau trydan ledled y Fwrdeistref Sirol.

Roedd trafodaeth i ddilyn a holodd Aelod pa mor agos y mae'r Cyngor yn gweithio gyda chynhyrchwyr ceir i ddarganfod sut mae'r maes Gwefru Cerbydau Trydan yn datblygu ac yn dod yn ei flaen. Dywedodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor ein bod ni'n cydweithio â Chyfarwyddwr Prifddinas-ranbarth Caerdydd, sy'n gwneud llawer o waith ymchwil yn y maes yma, a dywedodd hefyd fod gan y Cyngor ddarn o feddalwedd sy'n ei alluogi i fesur a rheoli'r galw am wefrwyr cerbydau trydan. Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon hefyd fod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru yn y maes hwn a bod y feddalwedd yn rhagweld tueddiadau'r dyfodol o ran Gwefru Cerbydau Trydan a thrafnidiaeth yn gyffredinol. Dywedwyd wrth yr aelodau bod cwmni o'r enw Senex, sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth y DU, yn gweithio gyda'r holl gyrff gweithgynhyrchu hefyd i fonitro tueddiadau yn y maes yma. Defnyddir y canllawiau yma i lywio proffil buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Holodd yr Aelod beth mae'r wybodaeth yma'n ei ddweud wrthyn ni o ran y 5 mlynedd nesaf. Dywedodd y Swyddogion y bydden nhw'n casglu'r data perthnasol ac yn anfon yr wybodaeth at yr Aelod.

Roedd trafodaeth i ddilyn, a holodd Aelod a oedd un pwynt gwefru cerbydau trydan ym maes parcio Tŷ Elái yn ddigonol. Holodd hefyd a fyddai mannau gwefru cerbydau trydan ym mynwent Trealaw at ddefnydd y cyhoedd neu swyddogion yn unig. Mewn perthynas â Thŷ Elái, dywedwyd wrth yr Aelodau bod pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod yn ddiweddar, a fydd ar gael ar gyfer y Fflyd a'r cyhoedd. O ran Trealaw, dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod y pwynt gwefru wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd Fflyd, ond bod dau fae yno a fydd hefyd ar gael i'r cyhoedd.

Parhaodd y trafodaethau a holodd Aelod a oedd cynllun hirdymor i gael pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn Ysgolion, ysbytai a meddygfeydd teulu. Holodd hefyd a oedd cynllun yn ei le i ddarparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan i gymunedau sydd heb feysydd parcio cyhoeddus. Dywedodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor fod gyda ni ganllawiau dylunio ar gyfer pob Ysgol newydd yn y Fwrdeistref Sirol a bod proses hefyd o gyflwyno system gwefru cerbydau trydan i Ysgolion addas eraill ar y cyd â chydweithwyr o'r Gwasanaeth Addysg. Mewn perthynas ag ysbytai/meddygfeydd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, ond fydd y Cyngor ddim yn gyfrifol am osod y pwyntiau gwefru cerbydau trydan. O ran cymunedau nad oes gyda nhw feysydd parcio cyhoeddus, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan hyd yma, ac y bydd y gwaith gosod yn parhau i fynd rhagddo. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr hefyd fod y Cyngor wrthi'n gosod mannau gwefru cyflym iawn yng nghanol trefi hefyd. Cadarnhawyd hefyd bod trafodaethau ar y gweill i gysylltu â chanolfannau yn y gymuned er mwyn gosod

pwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Holodd Aelod arall beth yw cyfreithlondeb gosod llinell wefru cerbydau trydan mewn tŷ teras. Mewn perthynas â gwefru cerbydau preswylwyr preifat, dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw hyn yn rhan o gylch gorchwyl y Cyngor. Dywedwyd hefyd bod y Grid Cenedlaethol wedi dweud bod modd i unrhyw un sydd am wefru ei gerbyd gartref dderbyn pŵer i wneud hyn. Y broblem ar gyfer y rheiny sy'n byw mewn tai teras yw diffyg lle parcio penodol y tu allan i'w heiddo, ac mae modd i hyn godi pryderon Iechyd a Diogelwch o ran ceblau gwefru. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen y gallai rhywun wefru ei gar o dŷ teras o bosibl, ond nid oes lle parcio dynodedig, sy'n golygu y gallai hyn arwain at berygl baglu neu greu sefyllfa lle mae cerbydau brys yn cael eu cyfyngu rhag mynd i'r stryd deras. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen fod y cymhlethdodau o'i gwmpas yn sylweddol a bod dyletswydd ar y Cyngor hefyd i ddiogelu defnyddwyr priffyrdd.

Holodd Aelod arall beth yw'r gost fesul uned i'r Cyngor o ran gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan . Dywedodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor nad oedd yr wybodaeth ganddyn nhw wrth law ond y byddai'n cael gafael ar yr wybodaeth ac yn ei dosbarthu drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod. Hysbyswyd yr aelodau bod y Cyngor wedi bod yn ffodus hyd yma i gael cyllid grant gan Brifddinas-ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Croesawodd yr Is-gadeirydd sylwadau pellach gan y Blaen Swyddog Lleihau Carbon mewn perthynas â thrafodaethau cynharach. Cadarnhawyd y bydd hi'n ofynnol cael ychydig dros 1500 o bwyntiau gwefru yn RhCT erbyn 2030, ac ar hyn o bryd mae tua 110 yn RhCT.

Parhaodd y trafodaethau a dywedodd Aelod y byddai angen uwchraddio pŵer sylweddol i rywun gael gwefru cerbydau trydan yn ei dŷ. Dywedodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor ei fod wedi cyfarfod yn ddiweddar â Swyddog o'r Grid Cenedlaethol a'i fod wedi cael sicrwydd bod ei gynllun 5 mlynedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a bod cyfoeth o wybodaeth am wefru cerbydau trydan ar gael ar wefan y sefydliad. Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod y Grid Cenedlaethol wedi gwneud addewid cysylltedd a bod hyn yn ei gwneud hin haws i bob cwsmer osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phympiau gwres.

Cyfeiriodd Aelod arall at ba mor gyflym y mae technoleg fodern yn datblygu a holodd a yw'r Cyngor yn monitro'r datblygiadau oherwydd efallai nad fydd angen pwyntiau gwefru cerbydau trydan mwyach yn y dyfodol. Cydnabu Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor pa mor gyflym y mae cynnydd yn digwydd yn y diwydiant, a bod y newidiadau yn gymesur yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae pob penderfyniad a wneir yn cael ei lywio gan y data sy'n dod yn ôl o'r pwyntiau gwefru presennol ar gyfer cerbydau trydan.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

i. Nodi cynnwys yr adroddiad yma, a chyflwyniad cysylltiedig, yn rhan o'r gwaith parhaus mewn ymateb i uchelgeisiau'r Cyngor o ran gwefru cerbydau trydan a gafodd eu pennu gan y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a Chynllun Gweithredu; a

ii. Derbyn adroddiad(au) pellach sy'n rhoi diweddariadau ar gynnydd pan fydd hi'n addas.

**48 Cyflwyno Terfynau Cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru**

Cyflwynodd y Pennaeth Traffig a Chludiant ei adroddiad i'r Aelodau a rhoddodd Gyflwyniad Power Point mewn perthynas â Chyflwyno Terfyn Cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru yn RhCT.

Yn dilyn hyn, cafodd Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau. Holodd Aelod a oedd yna gost fawr i'r Awdurdod mewn perthynas â fandaliaeth arwyddion a holodd a fyddai preswylwyr RhCT yn cael mwy o fewnbwn o ran cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd yn eu cymunedau eu hunain. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Dirprwy Weinidog wedi cynghori preswylwyr yn ddiweddar i ymgysylltu'n weithredol ag Awdurdodau Lleol ynghylch eu barn ar gyfyngiadau ffyrdd yn eu hardaloedd. Mewn perthynas â fandaliaeth, dywedodd y Pennaeth Traffig mai chwistrell paent oedd wedi achosi'r difrod pennaf yn ffodus, felly bychan iawn oedd y gost i'r Awdurdod.

Parhaodd y trafodaethau a nododd Aelod ei bod hi'n bwysig i'r Pwyllgor gael adolygiad pellach ymhen 12 mis o ran gweld yr effaith ar ddamweiniau ffyrdd a marwolaethau yn ein cymunedau. Pwysleisiodd yr Aelod hefyd bwysigrwydd adolygu'r effaith ar leihau amseroedd teithio ar gyfer bysiau a gyrwyr tacsis, a'r effaith a gaiff hyn ar eu hincwm.

Holodd Aelod arall a oedd cyfle i osod mwy o arwyddion ffyrdd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cyngor wedi ymrwymo i osod arwyddion wrth y fynedfa a'r marciau ffordd, fel yr hen arwyddion 30mya, ac na all y Cyngor godi arwyddion 20mya ailadroddus oni bai fod dim goleuadau stryd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

i. Trafod cynnwys yr adroddiad; a

ii. Trafod a ydy'r Aelodau'n bwriadu craffu ymhellach ar yr effaith y mae'r cynllun wedi'i chael ar breswylwyr Rhondda Cynon Taf (RhCT); a,

iii. Derbyn adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2024/25 sy'n amlinellu'r effaith y mae'r cynllun yn ei gael ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreswylwyr yn Rhondda Cynon Taf.

**49 Cynllun Buddsoddiad y Priffyrdd**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Priffyrdd a Pheirianneg ei adroddiad i'r Aelodau mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddiad yn y Priffyrdd yn RhCT. Rhoddwyd Cyflwyniad PowerPoint i'r Aelodau.

Yn dilyn hyn, cafodd Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau.

Holodd Aelod pa gyfiawnhad sydd ei angen i aelod o'r cyhoedd ofyn am fuddsoddiad neu osod wyneb newydd ar ffordd benodol yn ei ardal. Mewn perthynas â phriffyrdd mabwysiedig, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r ffordd orau o fynd ati yw i'r Aelod Etholedig Lleol ysgrifennu at y Cyngor, a bydd y Cyngor wedyn yn ymchwilio ac yn asesu cyflwr y ffordd. Bydd yr

Arolygwyr Priffyrdd hefyd yn asesu'r priffyrdd yn rheolaidd. Ychwanegodd yr Aelod bod modd i'r Cyngor elwa ar atgyweirio'r tyllau yn y ffordd gan y byddai hyn yn arwain at lai o breswylwyr yn cymryd camau cyfreithiol am gost atgyweirio eu cerbydau. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth hyn ond ychwanegodd hefyd fod y cyfan yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael, a bod y swm o arian sydd ei angen i gadw'r priffyrdd fel y maen nhw ar hyn o bryd yn sylweddol yn y cyfnod hwn o fesurau cyni.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

i. Craffu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am seilwaith priffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol gan gyfeirio'n benodol at y strategaeth rheoli asedau a'r strategaeth fuddsoddi; a,

ii. Craffu ar y gwariant sydd ei angen i gynnal a chadw asedau seilwaith y briffordd.

**50 Adroddiad Blynyddol Y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Ffyniant a Datblygu ei adroddiad i'r Aelodau a rhoddodd ddiweddariad mewn perthynas â darparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro.

Yn dilyn hyn, cafodd Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau. Holodd yr Is-gadeirydd a ydyn ni'n yn debygol o barhau i gael cyllid ar ôl 2025. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth fod hon yn rhaglen i gymryd lle cronfeydd yr UE ac felly mae'r Cyngor yn hyderus y bydd rhywfaint o arian ar ôl 2025, fodd bynnag mae llawer o ansicrwydd yn parhau ynghylch hyn ac mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda CLlLC i godi'r cwestiynau yma gyda Llywodraeth y DU.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

i. Trafod cynnwys yr adroddiad; a

ii. Trafod a ydy'r Aelodau yn dymuno ystyried unrhyw faterion pellach sy'n codi o'r adroddiad yn fanylach.

**51 MATERION BRYS**

Doedd dim mater brys i'w drafod.

**52 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN**

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Swyddogion am ddarparu adroddiadau mor fanwl ac atgoffodd yr Aelodau y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Mawrth 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.34 pm**

**Is Cadeirydd G Warren**